Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Dydd Mawrth 28 Ebrill 2026 am 1.30pm
Coleg Caerdydd a'r Fro

Yn bresennol

Aelodau

- Claire Bevan (Y Cadeirydd)
- Chris Knight
- David Powell

Archwilio Mewnol

- Elan Parry, TIAA (ar-lein)

Archwilio Allanol

- Jeremy Saunders, Archwilio Cymru
- James Addison, Archwilio Cymru (arsylwr)

Yr Uwch Dîm Arwain

- Rhian Bowen-Davies – Y Comisiynydd
- Kelly Davies – Y Prif Swyddog Gweithredu
- Rachel Bowen – Y Cyfarwyddwr Polisi
- Nia Halton – Y Pennaeth Cyllid (eitemau 1-10 ar yr agenda)
- Ruth Thomas – Uwch-gynorthwyydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau

- Sian Richards, Aelod ARAC
- Steen Gourlay, Archwilio Mewnol

Camau gweithredu sy'n codi / heb eu cwblhau

Dyddiad	Manylion	Enw	Dyddiad Cwblhau
24 Gorffennaf 2025	Dosbarthu copi o adroddiad Archwilio Cymru ar Ofal Brys ac Argyfwng.	Archwilio Cymru	Pan gyhoeddir yr adroddiad
28 Ebrill 2026	Cynnwys caffaeliadau sy'n uwch na'r trothwy yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ariannol.	Prif Swyddog Gweithredu	Medi 2027
28 Ebrill 2026	Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y porth cleientiaid newydd	Archwilio Mewnol	Cyfarfod ARAC mis Gorffennaf
28 Ebrill 2026	Ymchwilio i sesiwn hyfforddi ar sganio'r gorwel gydag Archwiliad Mewnol	Prif Swyddog Gweithredu	Cyfarfod ARAC mis Gorffennaf
28 Ebrill 2026	Cysoni adroddiad Uchafbwyntiau'r Rhaglen Waith â Blaenoriaethau Strategol y Comisiynydd	Cyfarwyddwr Polisi	Ar ôl penodi

Eitem 1 ar yr agenda: Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod diwedd blwyddyn ARAC, ac yn enwedig James Addison, hyfforddai graddedig yn Archwilio Cymru. Gwnaed cyflwyniadau.

Nododd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Cyfarwyddwr Polisi yn dilyn ei hymddiswyddiad. Diolchodd iddi am ei chefnogaeth a'i chyfraniadau llawn gwybodaeth i ARAC dros y tair blynedd diwethaf.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sian Richards.

Nododd y Cadeirydd fod y cyfarfod preifat blynyddol rhwng Archwilwyr ac Aelodau ARAC wedi cael ei gynnal cyn cyfarfod ARAC, gyda phresenoldeb llawn.

Nodwyd bod Cod Ymddygiad diwygiedig wedi cael ei anfon at staff Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac Aelodau ARAC i'w lofnodi.

i) Cofrestr buddiannau

Dim i'w nodi.

ii) Gweithredoedd Tendr Sengl ar gyfer Datganiad

Dim i'w nodi.

iii) Cyngor a roddwyd i'r Comisiynydd neu ei staff ers y cyfarfod diwethaf

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod y Cadeirydd wedi gweithio gyda Chadeiryddion Comisiynwyr eraill yng Nghymru i lunio llythyr i Lywodraeth Cymru ynghylch tâl Comisiynwyr. Nodwyd bod ymateb wedi dod i law, a byddir yn mynd ar drywydd hynny gyda'r Llywodraeth newydd.

Eitem 2 ar yr agenda: Adolygu cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod diwethaf ar 27 Ionawr 2026 (Papur 2)

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026 yn gofnod cywir.

Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Faterion sy'n Codi:

Dyddiad	Manylion	Enw	Diweddariad
24 Gorffennaf 2025	Dosbarthu copi o adroddiad Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu.	Archwilio Cymru	Byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu yn ystod y misoedd nesaf.
24 Gorffennaf 2025	Rhannu rhagor o wybodaeth / y gwersi a ddysgwyd yn dilyn yr ymgais i gyflawni ymosodiad seiber ar system TG Comisiynydd arall.	TIAA	Rhoddodd TIAA drosolwg o ddigwyddiad seiberddiogelwch a oedd yn ymwneud â gwefan sefydliad arall. Canfuwyd mai'r pwynt mynediad oedd hen gyfrif e-bost gweinyddol a oedd yn perthyn i gyn-ddefnyddiwr nad oedd wedi'i ddiogelu gan broses dilysu aml-ffactor. Cafodd y digwyddiad ei ganfod a'i reoli'n llawn o fewn 24 awr. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu sicrwydd i'r Pwyllgor fod adolygiad o arferion Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cadarnhau nad oedd unrhyw gyfeiriadau e-bost hanesyddol yn dal yn weithredol a bod proses dilysu aml-ffactor ar waith ar gyfer pob cyfrif e-bost.
27 Ionawr 2026	Cofnodi effaith gweithgarwch y rhaglen waith mewn diweddariadau i'r Rhaglen Waith yn y dyfodol.	Cyfarwyddwr Polisi	Gweithredwyd.

Diweddariadau ychwanegol wedi'u darparu:

Dywedodd TIAA wrth y Pwyllgor fod Porth Digidol newydd yn cael ei ddefnyddio'n fewnol a'i fod yn gweithio'n dda i symleiddio prosesau mewnol. Fodd bynnag, mae lansio'r swyddogaeth mewngofnodi cleientiaid wedi cael ei ohirio.

Eitem 3 ar yr agenda: Archwilio Mewnol

i) Adroddiad Diweddaru SICA

Cyflwynodd Elan Parry Bapur 3i a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod pob rhan o Gynllun Blynyddol 2025-26 wedi cael ei gyflawni.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd y diwrnod wrth gefn arfaethedig wedi cael ei ddefnyddio unwaith eto, ac felly ni fyddai'n cael ei ymgorffori yng nghynlluniau 2026-27.

Diolchodd y Cadeirydd i TIAA am yr adroddiad a chroesawu'r wybodaeth a'r cyd-destun a ddarparwyd yn y Crynodeb o'r Rhybuddion a'r Briffio diweddar i Gleientiaid yn Atodiad B.

Yn dilyn trafodaeth ar y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth newydd, cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod yr holl bolisïau AD wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru (lle bo angen) i sicrhau cydymffurfiaeth.

Croesawodd y pwyllgor y dosbarthiad cytbwys o waith archwilio a wnaed yn ystod 2025-26.

Diolchodd y Cadeirydd i TIAA am yr wybodaeth ddiweddaraf.

ii) Adroddiad Archwilio Caffael a Chontractau

Cyflwynodd TIAA Bapur 3ii, gan dynnu sylw at y ffaith bod 'sicrwydd sylweddol' wedi'i roi i'r archwiliad.

Ni wnaed argymhellion ynghylch Materion Effeithiolrwydd Gweithredol. Croesawodd y Pwyllgor y sgôr a roddwyd.

Hysbyswyd y Pwyllgor mai archwilio mewnol oedd yr unig gontract caffael a geisiwyd ar y cyd â Chomisiynwyr eraill.

Nodwyd y bydd gofyniad statudol i gynnwys caffaeliadau sy'n uwch na'r trothwy yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ariannol 2026-27. Cam gweithredu: Prif Swyddog Gweithredu.

iii) Adroddiad Mesurau Rheoli Ariannol Allweddol

Cyflwynodd Elan Parry bapur 3iii i'r Pwyllgor, gan nodi'r dosbarthiad 'sicrwydd sylweddol' ac nad oedd unrhyw argymhellion wedi cael eu gwneud.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y broses archwilio wedi bod yn gadarn.

Cadarnhaodd TIAA fod gwahanu dyletswyddau yn cael ei ystyried mewn archwiliadau lle bo hynny'n berthnasol a'i fod wedi cael ei adolygu yn yr achos hwn.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiadau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwilydd Mewnol am y diweddariad a llongyfarch Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar ganlyniadau cadarnhaol yr archwiliad.

Eitem 4 ar yr agenda: Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol

Cyflwynodd TIAA yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol gan dynnu sylw at y ffaith bod pob un o'r pedwar archwiliad wedi cael 'sicrwydd sylweddol', sef y dosbarthiad uchaf. Nodwyd dau gyfle effeithiolrwydd gweithredol.

Cydnabuwyd nad oedd diwrnodau wrth gefn wedi cael eu defnyddio, ond bod nifer y diwrnodau archwilio yn rhesymol i gwblhau'r cynllun blynyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Chris Knight, cadarnhaodd TIAA fod archwiliadau manwl a thrylwyr wedi cael eu cynnal, ond roedd yn cydnabod y gall sefydliadau mwy fod yn fwy cymhleth ac wynebu mwy o risgiau. Dywedodd TIAA wrth y Pwyllgor fod sgoriau 'sicrwydd sylweddol' ar draws yr holl feysydd a archwiliwyd yn brin ac yn adlewyrchu'r prosesau a'r arferion cadarn sydd ar waith.

Diolchodd y Cadeirydd i TIAA am y diweddariad a'r adroddiad, a chroesawodd y canlyniadau cadarnhaol a nodwyd.

Eitem 5 ar yr agenda: Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2026/27

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2026/27 i'r Pwyllgor ei gymeradwyo.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r cynllun 3 blynedd o dan Atodiad A a'r Siarter Archwilio Mewnol er mwyn cael eglurder ynghylch rolau a disgwyliadau Archwilio Mewnol a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Byddai llai o archwiliadau'n cael eu cynnal y flwyddyn nesaf, a fyddai'n caniatáu mwy o amser a dadansoddi ar draws pob archwiliad. Ni chytunwyd ar y diwrnod hyfforddi hyd yn hyn.

Nododd y Pwyllgor y ceir sicrwydd o nifer o ffynonellau, ac mae Archwilio Mewnol yn rhan bwysig ohonynt, a chymeradwyodd y cynllun blynyddol.

Eitem 6 ar yr agenda: Cynllun blynyddol Archwilio Cymru

Cyflwynodd Jeremy Saunders Gynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2026/27, gan nodi'r trothwyon, y ffioedd a'r amserlenni ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cadarnhaodd Archwilio Cymru fod gwaith interim eisoes ar y gweill gyda'r prif archwiliad wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin/Gorffennaf cyn cymeradwyo a gosod cyfrifon ym mis Medi.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y costau a'r broses o drosglwyddo data o Sage i Xero, sef system rheoli cyflogres a chyfrifon newydd y sefydliad, gan egluro bod y ffi amcangyfrifedig yn cynnwys gwaith angenrheidiol yn y maes hwn cyn archwiliad y flwyddyn nesaf.
Cyfeiriodd Archwilio Cymru at fater rheoli'r gronfa bensiynau sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr o ran y bobl sydd ar fin ymddeol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun a diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am y diweddariad.

Eitem 7 ar yr agenda: Adolygu effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol (Papur 7)

(Gadawodd yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol y cyfarfod ar gyfer y trafodaethau ar yr eitem hon ar yr agenda).

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu y papur a oedd yn adolygu effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod pedwar archwiliad wedi cael eu cynnal yn ystod 2025-26. Roedd y cyfweliadau archwilio wedi bod yn drylwyr ac roeddent yn cynnwys darparu gwybodaeth fanwl i ddangos tystiolaeth o ffyrdd o weithio.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod perthynas waith gadarnhaol ac ymatebol wedi'i sefydlu gyda'r Archwilydd Mewnol.

Rhoddodd y Cadeirydd adborth i'r Archwilydd Mewnol, gan dynnu sylw at y diweddariadau cadarnhaol a chynhwysfawr a rannwyd mewn cyfarfodydd. Diolchodd y Cadeirydd i Elan Parry am ei chyfraniad personol at fusnes y Pwyllgor a nododd fod ei gwybodaeth ar draws y sector cyhoeddus yn rhoi lefel ychwanegol o sicrwydd i'r Pwyllgor.

Diolchodd Elan Parry i'r Cadeirydd am y sylwadau cadarnhaol ac ailadroddodd ei hymrwymiad i'r berthynas waith. Tynnodd sylw at y Fframwaith Ansawdd sydd i fod i gael ei gyflwyno yn 2027, a'r porth cleientiaid sydd ar y gweill a fydd yn cryfhau arferion gweithio ac archwiliadau ymhellach.

Eitem 8 ar yr agenda: Adroddiad Ariannol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Bapur 8 sy'n amlygu diwedd cyfnod cyfrifon ariannol 2025/26. Rhoddwyd gwybod am y canlynol i'r Pwyllgor:

- Roedd £2,820 ar ôl ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hwnnw'n ymwneud â chostau cyflogaeth.
- Cadarnhawyd bod cyllideb y rhaglen wedi'i gwario'n llawn.
- Cadarnhawyd cynnydd o 3.07% i gyllideb y flwyddyn nesaf
- Roedd dogfen cynllunio canol tymor ar y gweill ac yn dibynnu ar ymrwymiadau'r rhaglen waith.
- Roedd y broses o symud i system cyfrifyddu a chyflogres Xero yn y cwmwl wedi mynd rhagddo'n ddidrafferth.
- Byddai Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad ariannol ar 22 Mehefin.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor gyda'r adroddiad a'r ffaith y gwariwyd dyraniad y gyllideb ar draws y flwyddyn ariannol flaenorol. Nodwyd profiad cadarnhaol defnyddwyr o feddalwedd cyfrifyddu Xero.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid am yr adroddiad cynhwysfawr ac am fapio gwariant y gyllideb ar gyfer rhaglen waith 2026-27.

Eitem 9 ar yr agenda: Treuliau'r Comisiynydd

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrir yn y Gofrestr Dreuliau.

Eitem 10 ar yr agenda: Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrwyd yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid am y diweddariadau. (Gadawodd y Pennaeth Cyllid y cyfarfod ar ôl yr eitem hon ar yr agenda.)

Eitem 11 ar yr agenda: Cylch Gorchwyl ARAC

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu Gylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ARAC i'r Pwyllgor, gan nodi'r newidiadau a amlygwyd yn y ddogfen.

Nododd y Pwyllgor y newidiadau a chymeradwyo Cylch Gorchwyl ARAC.

Eitem 12 ar yr agenda: Adroddiad Blynyddol 2025-26 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad blynyddol 2025-26 yn ffurfiol i'r Pwyllgor gan ddiolch i'r aelodau am eu hymrwymiad, eu presenoldeb a'u cyfraniadau mewn cyfarfodydd. Cofnododd y Cadeirydd ddiolch y Pwyllgor i Julia Evans a gwblhaodd ei thymor fel Aelod ARAC yn ystod 2025-26.

Croesawodd y Pwyllgor y cyfleoedd hyfforddi a'r sesiynau datblygu a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd adlewyrchu cydraddoldeb ac amrywiaeth fel Aelodau ARAC.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Uwch Dîm Arwain am y papurau cynhwysfawr ac am y gwaith cynllunio effeithiol ac ymatebol a wnaed i drefnu sesiynau datblygu yn ystod y flwyddyn.

Cymeradwywyd yr adroddiad yn amodol ar archwiliad ariannol gan Archwilio Cymru.

Eitem 13 ar yr agenda: Y Gofrestr Risg Strategol

i) **Y Gofrestr Risgiau**

ii) **Papur Egluro Risg**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu y Gofrestr Risg Strategol, gan ddarparu trosolwg o'r prif newidiadau yn ystod Chwarter 4.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod cynllun ymgysylltu gwleidyddol ar waith ar gyfer y cyfnod yn dilyn etholiad y Senedd.

Cododd y Cadeirydd gwestiwn ar ran Sian Richards ynghylch y broses ar gyfer uwchgyfeirio materion o risgiau gweithredol i risgiau strategol. Cadarnhaodd y Comisiynydd fod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu trafod yn ddyddiol, ac yn cael eu trafod yn ffurfiol gan yr Uwch Dîm Arwain mewn cyfarfodydd misol.

Cytunwyd y byddai sesiwn hyfforddi wedi'i hwyluso ar sganio'r gorwel yn ddefnyddiol. Cam gweithredu: Prif Swyddog Gweithredu.

Croesawodd y Pwyllgor y sicrwydd a roddodd yr adroddiad, a diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am y papurau.

Eitem 14 ar yr agenda: Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwaith a thaenlen RAG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Polisi Bapurau 14i a ii), gan dynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn ystod wythnosau olaf rhaglen waith 2025-26 ynghyd ag effaith barhaus gwahanol brosiectau.

Roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i rai ffrydiau gwaith oherwydd absenoldeb annisgwyl staff; fodd bynnag, roedd mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r modiwl Oedraniaeth yn cael ei lansio'n ffurfiol ar Ddiwrnod Heneiddio Heb Gyfyngiadau ar 10 Mehefin, a bod adborth cadarnhaol wedi dod i law gan sefydliadau a oedd yn rhan o'r cynllun peilot. Byddai cydweithwyr yn parhau i weithio gyda sefydliadau allanol i hyrwyddo ymgorffori'r modiwl mewn pecynnau hyfforddi staff.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Polisi drosolwg i'r Pwyllgor o ganlyniadau polau piniwn diweddar, gan dynnu sylw at gynnydd o 7% mewn ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd ers 2023.

Cytunwyd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn ceisio cysoni Uchafbwyntiau'r Rhaglen Waith â Blaenoriaethau Strategol y Comisiynydd.

iii) Rhaglen Waith Ddrafft 2026-27

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Polisi Raglen Waith 2026/27 gan dynnu sylw at yr amrywiaeth eang o brosiectau y bwriedir eu cyflawni ar draws meysydd blaenoriaeth y Comisiynydd.

Mynegodd y Cadeirydd bwysigrwydd cofnodi mesurau llwyddiant ar y dechrau er mwyn sicrhau adroddiadau chwarterol effeithiol.

Yn dilyn cwestiwn gan Chris Knight, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod adroddiad ar dlodi wedi cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd yn dilyn adolygiad llenyddiaeth. Byddai'r prosiect gwledigrwydd hefyd yn cynnwys profiadau pobl hŷn o dlodi o safbwynt gwledig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Polisi am y diweddariad cynhwysfawr a'r sicrwydd a roddwyd.

Eitem 15 ar yr agenda: Adroddiad Llywodraethu Chwarterol:

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu uchafbwyntiau'r adroddiadau chwarterol.

i) Adroddiad Llywodraethu

Cafwyd un cais Rhyddid Gwybodaeth ac un gŵyn allanol. Yn dilyn ymchwiliad, roedd y gŵyn wedi cael ei chadarnhau ac roedd yr hyn a ddysgwyd wedi cael ei roi ar waith.

ii) Adroddiad Iechyd y Sefydliad

- Ar hyn o bryd nid oes unrhyw aelodau o staff ar absenoldeb salwch hirdymor ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch absenoldebau staff. Nodwyd y lefel isel o absenoldebau tymor byr.
- Cynhaliwyd diwrnod cwrdd i ffwrdd y sefydliad ar 3 Chwefror.
- Mae rhaglen o werthusiadau blynyddol yn mynd rhagddi.
- Byddai canlyniadau'r arolwg staff yn cael eu dadansoddi a'u rhannu â'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.
- Cafodd y polisïau eu hadolygu mewn ymateb i'r fersiwn ddiweddaraf o'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth.

iii) Adroddiad Cyfathrebu

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr adroddiad, a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, fel trosolwg ar Chwarter 4.

Cydnabuwyd mai diben yr adroddiad oedd rhoi golwg gyffredinol o'r gweithgarwch a'r cyrhaeddiad, yn hytrach nag effaith. Nododd y Pwyllgor yr amrywiaeth o lwybrau a oedd yn cael eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth o gynllun gwaith a gweithgarwch y Comisiynydd.

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrth y Pwyllgor y byddir hefyd yn adrodd ynghylch gweithgarwch Ymgysylltu mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

iv) Cerdyn Sgorio Cytbwys

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu Bapur 15iv i'r Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor y Cerdyn Sgorio Cytbwys.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau Llywodraethu Chwarterol yn rhoi sicrwydd cryf yn y meysydd hyn.

v) Gweithdy Parhad Busnes

Cynhaliwyd gweithdy yn ddiweddar ar Barhad Busnes ar gyfer Tîm Ymateb i Argyfwng Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, wedi'i hwyluso gan arbenigwr allanol. Adroddodd y Prif Swyddog Gweithredu fod
y sesiwn yn canolbwyntio ar adolygu polisïau parhad busnes ac arferion gorau a'i fod yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol.

Nodwyd bod safon ryngwladol ar gael ar gyfer parhad busnes ac y byddir yn ymchwilio ymhellach i hynny.

Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad a thynnu sylw at yr angen am gymesuredd a dogfennau sy'n briodol i'r sefydliad.

Eitem 16 ar yr agenda: Adroddiad Seiberwydnwch

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gweithgarwch diweddar yn ymwneud â seiberwydnwch.

Oherwydd y risgiau diogelwch cysylltiedig, nid oes cofnod o'r drafodaeth am yr eitem hon.

Eitem 17 ar yr agenda: Strategaeth Rheoli Risgiau

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu y Strategaeth Rheoli Risgiau wedi'i diweddaru, gan dynnu sylw at y mân newidiadau a wnaed.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod risg wrth wneud penderfyniadau wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad wrth wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Croesawodd y Cadeirydd y sicrwydd, a chymeradwyodd y Pwyllgor y strategaeth.

Eitem 18 ar yr agenda: Polisi Codi Pryderon

Croesawodd y Pwyllgor y diweddariadau i sicrhau gwell eglurder a chymeradwyo'r polisi diwygiedig.

Eitem 19 ar yr agenda: Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw eitemau busnes ychwanegol i'w trafod.

Eitem 20 ar yr agenda: Adolygu'r cyfarfod, gan gynnwys trafod yr eitemau i'w cynnwys ar yr agenda, diwrnodau datblygu a ffocws cyfarfodydd yn y dyfodol

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y trafodaethau buddiol a diddorol, ac am gefnogaeth a chydweithrediad parhaus y Pwyllgor. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon â'r papurau a'r ymatebion a roddwyd.

Diolchodd James Addison, Archwilio Cymru i'r Pwyllgor am y cyfle i arsylwi ar y cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau unwaith eto i'r Cyfarwyddwr Polisi ar gyfer y dyfodol.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: Bydd cyfarfod nesaf ARAC yn cael ei gynnal am 1.30pm ddydd Iau 30 Gorffennaf 2026 yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.